

Celf a Dylunio
2 i 5

# Paent Siarcol

## Trosolwg

Beth am i chi fynd ati i chwilio am y preswylydd ogof sy'n llechu tu mewn i chi gyda'r cyfle yma i greu marciau gyda phaent naturiol.

## Canlyniadau Dysgu Posibl

- Datblygu sgiliau motor manwl a bras
- Cynorthwyo i ffurfio llythrennau ac adnabod symbolau

## Offer

- Siarcol (gweddillion darn o bren wedi'i losgi o dân)
- Olew llysiau
- Arwyneb fflat neu blât plastig
- Carreg fechan sy'n ffitio yn y llaw ar gyfer malu
- Hen frwsh paent (neu gwnewch un o frigyn a glaswellt, plu neu ddail sydd ar gael)
- Sebon a dŵr ar gyfer golchi ar y diwedd

## Gweithgaredd

1. Malwch lwmp bach o siarcol yn bowdr mân gan ddefnyddio carreg.
2. Ychwanegwch ychydig o olew llysiau a'i gyfuno â'r powdr i greu gwead paent olew.
3. Gan ddefnyddio'ch brwsh paent, ceisiwch greu marc ar arwyneb addas (gan gofio efallai y bydd y dyluniadau yno am sbel!)

## Canlyniadau posibl i ddangos dysgu

1. Datblygu sgiliau motor manwl a bras drwy wneud marciau.
2. Arbrofi gyda marciau gwahanol fel rhoi wyneb i goeden.
3. Cysylltu â hanes ac archwilio gwahanol farciau a phaentiadau ogofâu.
4. Defnyddio eich creadigaeth fel paent wyneb hwyliog i chwarae rôl neu ail-gread hanesyddol
5. Defnyddio'r siarcol i ffurfio llythrennau neu rifau a chysylltu â meysydd cwricwlaidd.

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890